**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JJ/3057/23

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

15 Mawrth 2024

Annwyl Llŷr

**Bil Seilwaith (Cymru)**

Yn fy llythyr dyddiedig 9 Ionawr, addewais y byddwn yn cyhoeddi Datganiad o Fwriad Polisi diwygiedig mewn perthynas â Bil Seilwaith (Cymru). Rwy'n atodi'r Datganiad diwygiedig o Fwriad y Polisi ar y darpariaethau trosiannol fel atodiad i'r llythyr hwn.

Mae fy swyddogion wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid penodol ar y cynigion hyn. Yn unol â'r cynllun gweithredu a roddais i chi byddwn yn cynnal ymgynghoriad ehangach ar hyn, a'r holl feysydd polisi a gynhwysir yn y Bil, yn ystod Haf/Hydref 2024. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn helpu i lywio ffurf derfynol a chynnwys y darpariaethau trosiannol, yn ogystal â meysydd eraill yn y Bil.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# ATODIAD I'R DATGANIAD O FWRIAD Y POLISI –

# RHAN 9 – DARPARIAETHAU CYFFREDINOL

## Adran 141 - Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol etc.

### Cyflwyniad

Dyma atodiad i'r Datganiad o Fwriad y Polisi ac mae'n ymdrin ag adrannau 142 a 144 o'r Bil Seilwaith (Cymru) ("y Bil"), yng nghyfnod 2 proses graffu Senedd Cymru. Seilwaith Cymru Bill.pdf (senedd.cymru)

Mae'r atodiad hwn yn darparu cynigion drafft ar gyfer darpariaethau trosiannol. Mae'r Datganiad o Fwriad y Polisi yn pennu bwriad deddfwriaethol yr is-ddeddfwriaeth a ddaw o dan y Bil. Nid yw'n bolisi'r llywodraeth nac yn bolisi cynllunio ychwanegol.

Mae'r Bil yn adran 142 yn pennu pŵer gwneud rheoliadau y caiff Gweinidogion Cymru ei ddefnyddio er mwyn gwneud darpariaethau atodol, deilliadol, trosiannol neu ganlyniadol. Caiff y rheoliadau hyn ddiwygio, addasu, diddymu neu ddirymu (gan gynnwys deddfiad sydd wedi'i gynnwys yn y Bil hwn). Mae adran 144 o'r Bil yn nodi rhagor o fanylion am ddarpariaethau trosiannol.

Rydym am alluogi rhanddeiliaid i gymryd mwy o ran wrth bennu darpariaethau priodol. Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu darpariaethau trosiannol sy'n ymarferol, mae'r cynnig drafft hwn yn nodi'r ystyriaethau cyfredol.

Pwrpas nodi'r cynigion drafft hyn yw rhoi mwy o eglurder i randdeiliaid ynghylch prosiectau sy'n bod neu geisiadau sydd ar ddod. Bydd hefyd yn fan cychwyn ar gyfer datblygu cynigion ymgynghori ffurfiol os caiff y Bil Gydsyniad Brenhinol.

### Cefndir

Bydd y Bil yn cymryd lle, naill ai'n llawn neu'n rhannol, nifer o gyfundrefnau statudol ar gyfer cydsynio prosiectau seilwaith. Felly, er mwyn dwyn nifer o gyfundrefnau ynghyd, rhaid wrth ddarpariaethau trosiannol priodol mewn perthynas â:

- Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
- Deddf Trydan 1989;
- Deddf Harbyrau 1964
- Deddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992; a
- Deddf Priffyrdd 1980

Mae'r Bil yn rhestru'r prosiectau seilwaith o bwys cenedlaethol a ddaw o dan y gyfundrefn gydsynio newydd, gan ddileu'r gofyn ar gyfer eu cydsynio o dan y cyfundrefnau uchod.

### Bwriad y Polisi

Bwriad darpariaethau trosiannol yw sicrhau taith esmwyth o'r naill gyfundrefn i'r llall, gan helpu i osgoi tarfu ar faterion sydd eisoes ar y gweill. Mae hyn yn golygu y caiff

prosiectau sy'n cael eu hystyried neu sydd ar eu taith drwy'r prosesau cydsynio presennol barhau i wneud hynny nes bod penderfyniad wedi'i wneud.

Mae'n ceisio hefyd osgoi dyblygu gwaith lle bo prosiect yn cael ei ddatblygu cyn i'r gyfundrefn newydd ddod i rym ond bod cydsyniad yn cael ei roi o dan y darpariaethau newydd. At hynny, o ran cydsyniadau sydd wedi'u rhoi eisoes, gellir parhau i wneud penderfyniadau am ddiwygiadau ar ôl rhoi cydsyniad, megis newidiadau neu ddiwygiadau materol i gydsyniad sydd eisoes wedi'i roi.

**Cynigion Drafft**

Mae'r cynigion drafft ar gyfer darpariaethau trosiannol yn y Bil yn cynnwys dwy elfen. Mae'r naill yn ymwneud â phwyntiau pontio a'r llall yn ymwneud â throsglwyddo gwaith cyn gwneud cais, megis arolygon amgylcheddol, o'r drefn bresennol i gyfundrefn y Prosiect Seilwaith Arwyddocaol (PSA) a sefydlir gan y Bil.

**Pwyntiau pontio yn y cyfundrefnau presennol**

Os gwneir cais o dan gyfundrefn bresennol, yn ein barn ni dylid rhoi cydsyniad iddo o dan y drefn honno. Gan fod gweithdrefnau a phrosesau cyfundrefnau cydsynio presennol yn amrywio, mae'r hyn a olygir wrth wneud cais yn amrywio. Ar hyn o bryd, credwn y dylai pwyntiau pontio gael eu nodi'n glir mewn is-ddeddfwriaeth, hynny er sicrhau eglurder.

Mae adran 144 o'r Bil yn nodi y caiff datblygiad ei ystyried o dan y cyfundrefnau presennol os yw'r cais neu'r hysbysiad hwnnw wedi'i wneud neu os yw'r cydsyniad yn dal i fod yn destun ystyriaeth. Os yw prosiect wedi cyrraedd y pwyntiau pontio hyn ar y dyddiad y daw'r Ddeddf i rym, mater i'r ymgeisydd fydd penderfynu a ddylai cais neu orchymyn barhau o dan y cyfundrefnau presennol neu a ddylai wneud cais newydd fel PSA.

Mae adran 144(6) yn galluogi rheoliadau i wneud darpariaeth ynghylch pryd y gwneir cais neu hysbysiad, neu pryd ystyrir bod datblygiad o dan ystyriaeth. Ar hyn o bryd dyma pryd y disgwylir y pwyntiau hyn:

<u>DNS</u>

- Hysbysiad o dan adran 62E(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 am gais arfaethedig.

<u>Ceisiadau dan adran 36 o Ddeddf Trydan 1989</u>

- cais sydd wedi'i gyhoeddi yn y papurau newydd perthnasol yn unol â Rheoliad 7 o Reoliadau Trydan (Gorsafoedd Cynhyrchu Alltraeth) (Ceisiadau am

Gydsyniad) (Cymru) 2019[1]. Y dyddiad perthnasol yw diwrnod ei gyhoeddi gyntaf.

Gorchmynion o dan adran 14 o Ddeddf Harbyrau 1964[2] (Gorchmynion Adolygu Harbyrau)

- y dyddiad perthnasol fydd y diwrnod pan gaiff Gweinidogion Cymru gais sy'n bodloni'r gofynion a nodir ym Mharagraff 7 o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno.

Gorchmynion o dan adran 1 ac adran 3 o Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992

- y dyddiad perthnasol fydd y diwrnod pan fydd Gweinidogion Cymru yn derbyn gorchymyn drafft cyn ymgeisio a memorandwm esboniadol yn unol â rheol 5(1) o Reolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Geisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 2006[3].

Caniatâd cynllunio o dan adran 57(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

- y dyddiad perthnasol fydd y diwrnod pan fydd ACLl yn derbyn cais sy'n bodloni gofynion Erthygl 5 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012[4].

Gorchmynion Priffyrdd o dan Ddeddf Priffyrdd 1980

- y dyddiad perthnasol fydd y diwrnod pan fydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi hysbysiad yn unol â pharagraff 1 o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno.

Rydym yn croesawu awgrymiadau eraill i'r pwyntiau hyn.

**Gwaith presennol sy'n cael ei ystyried yn berthnasol i gyfundrefn y PSA**

Rydym o'r farn y byddai'n fuddiol rhag dyblygu gwaith i drosglwyddo gwaith cyn ymgeisio os yw prosiect yn cael ei ddatblygu cyn y daw'r gyfundrefn newydd i rym ond y caiff ei gydsynio o dan y darpariaethau newydd.

Cydnabyddir bod proses ymgeisio rhai o'r cyfundrefnau cydsynio presennol, megis Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 a Deddf Trydan 1989 wedi dyddio. Fodd bynnag, mae ymgeiswyr yn aml yn gwneud mwy na'r lleiafswm statudol trwy wneud gwaith a fyddai'n debygol o fod yn gyson â chyfundrefn newydd y PSA. Y gobaith yw drwy roi eglurder yn y cam hwn wrth ddatblygu cyfundrefn y PSA, y bydd darpar ymgeiswyr yn gallu sicrhau bod y gwaith a wneir yn gydnaws â chyfundrefn y PSA a

[1]OS. 2019/295
[2]Deddf Harbyrau 1964 adran 40
[3]OS. 2006/1466
[4]OS. 2012/801

bod modd felly ei gario drosodd. Er enghraifft, gallai hyn olygu bod darpar ymgeiswyr yn cynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio ychwanegol er mwyn cydymffurfio â phroses ymgeisio'r PSA.

Bydd ffurflen, cynnwys a manylion penodol yr hyn fydd ei angen i wneud cais PSA dilys yn cael eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth.

Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio

Os yw darpar ymgeisydd am gario drosodd agweddau eraill ar y gwaith, megis arolygon amgylcheddol, byddai angen bodloni'r ymgynghoriad cyn ymgeisio statudol ar gyfer PSA, waeth pa fath o seilwaith y gwneir cais amdano.

Rhagwelir y bydd yr ymgynghoriad cyn ymgeisio sy'n ofynnol ar gyfer PSA yn debyg i'r gyfundrefn DNS, ac i'r arfer gorau mewn cyfundrefnau cydsynio seilwaith mawr modern eraill y bydd llawer o randdeiliaid yn gyfarwydd â nhw. Gall hyn olygu bod ymgeiswyr yn cynllunio ar gyfer ac yn cynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio nad oes ei angen o bosibl o dan gyfundrefnau cydsynio presennol.

Y bwriad yw bod y broses cyn ymgeisio yn cael ei phennu mewn is-ddeddfwriaeth. Caiff manylion ein cynigion eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghori arnynt yn yr haf.

Mater i ddisgresiwn Gweinidogion Cymru fydd derbyn a dilysu adroddiadau ymgynghori cyn ymgeisio fel rhan o gais PSA.

Arolygon amgylcheddol ac eraill

Cydnabyddir bod llawer o arolygon amgylcheddol yn gofyn am gryn amser i'w cynnal, ac efallai y bydd angen i randdeiliaid gynllunio ymlaen llaw i sicrhau y gellir cario arolygon a gynhelir yn y dyfodol agos drosodd i gais PSA yn y dyfodol.

Rhagwelir, cyn belled â bod y datblygiadau a gynigir yr un fath i raddau helaeth, y dylid gallu trosglwyddo arolygon i'r gyfundrefn PSA. Fel gydag unrhyw gais seilwaith mawr arall, os caiff dyluniad y prosiect neu elfen arall ei newid, efallai y bydd angen arolwg neu adroddiad atodol.

Fel gydag arolygon amgylcheddol, mae cynhyrchu Datganiad Amgylcheddol (ES) at ddibenion Asesiad Effaith Amgylcheddol yn aml yn gofyn am gryn amser i'w gynhyrchu. Er y bydd hyn yn destun is-ddeddfwriaeth ar wahân ac efallai'n cael ei newid yn y blynyddoedd i ddod, rhagwelir y bydd modd cario'r ES drosodd cyn belled â bod y prosiect yr un fath i raddau helaeth.

Yn hyn o beth, bydd modd trosglwyddo barn neu gyfarwyddydau sgrinio neu gwmpasu i gyfundrefn y PSA, ar yr amod bod y prosiect yn aros yr un fath i raddau helaeth. Fodd bynnag, mae gan Weinidogion Cymru ddisgresiwn i gyhoeddi barn neu gyfarwyddyd newydd neu i ofyn am ragor o wybodaeth am AEA.

Cyngor Dewisol gan Ymgynghoreion

Lle bo corff neu sefydliad yn rhoi cyngor cyn ymgeisio ar ddatblygiad arfaethedig, y corff hwnnw fydd yn penderfynu a gaiff y cyngor hwnnw ei gario drosodd i gais PSA. Fodd bynnag, os bydd prosiect yn aros yr un fath i raddau helaeth, ystyrir y dylai datblygwr allu dibynnu ar y wybodaeth a roddwyd a byddai'n broses syml i gorff gadarnhau bod y cyngor yn dal i fod yn berthnasol, ac ychwanegu atodiad os oes unrhyw newidiadau.

**Statws yr atodiad hwn a'r camau nesaf**

Bydd is-ddeddfwriaeth, gan gynnwys manylion penodol trefniadau trosiannol, yn destun ymgynghoriad ffurfiol pan gaiff y Bil Gydsyniad Brenhinol. Ein bwriad yw bod yr is-ddeddfwriaeth yn gwneud y trefniadau trosiannol yn glir. Mae amserlen ar gyfer ei roi ar waith wedi'i rhoi i'r Senedd, a rhagwelir y bydd ymgynghoriad ffurfiol yn cael ei gynnal yn haf 2024.

Er bod pwerau yn y Bil i alluogi disgresiwn mewn rhai rhannau o'r broses, a allai gael ei gymhwyso yn ôl yr achos i ddarpariaethau trosiannol, nid yw hyn yn rhoi'r eglurder sydd ei angen ar randdeiliaid. Felly, croesawir adborth ar y cynnig drafft ar ddarpariaethau trosiannol, er mwyn helpu i lywio eu datblygiad a'r ymgynghoriad ffurfiol yn dilyn y Cydsyniad Brenhinol. Croesewir adborth ar y trefniadau trosiannol posibl ar gyfer datblygu ar y môr yn arbennig.